Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru

Cynllun Strategol Tair Blynedd

2009 – 2012

Cyflwyniad

- Cyflwyniad 3
- Datganiad ar y cyd ag Awdurdod Heddlu a Heddlu Gogledd Cymru 4
- Swyddogaeth Awdurdod yr Heddlu 4

Blaenoriaethau Plismona Blynyddol 2009/10 ac Amcanion Strategol 2009/12

- Blaenoriaethau Plismona Strategol Cenedlaethol 2009-10 5
- Blaenoriaethau Plismona Blynyddol Heddlu Gogledd Cymru 2009-10 5
- Targedau a Dangosyddion Perfformiad Heddlu Gogledd Cymru 6
- Targed Hyder 8
- Amcanion Plismona Strategol Heddlu Gogledd Cymru 2009-12 9

Perfformiad: llwyddiannau a dangosyddion

- Perfformiad 2008/09 13
- Defnydd yr Heddlu o Adnoddau 13
  - Datblygiadau dan *PURE* 14
- AHEM – Canfyddiadau archwiliad 14
- APACS 14

Gweithio mewn Partneriaeth

- Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSA) 16
  - Gwneud Cymunedau'n Ddiogelach - PSA23 16
  - System Cyfiawnder Troseddol – PSA24 16
  - Lleihau'r niwed a achosir gan alcohol a chyffuriau – PSA25 16
  - Lleihau'r perygl o derfysgaeth - PSA26 16
- Partneriaethau Diogelwch Cymunedol 17

Blaenoriaethau Cenedlaethol a Lleol

- Ymgynghori 18
- Ymgyrch QUEST 18
- Gwasanaethau Amddiffynnol; Rhaglen Wella 3 Blynedd 19
- Cydweithio 19
- Safonau Cydraddoldeb 20
- Rhaglen Canolbwyntio ar y Dinesydd 21
- Strategaeth Dysgu a Datblygu 21
- Cynllun Datblygiad Cynaliadwy 21
- Y Cynllun Iaith Gymraeg 22
- Caffael 22
- Amrywiaeth 23

Cyllid

- Strategaeth Effeithlonrwydd a Chynhyrchiant yr Heddlu 2008/11 24
- Sut rydym yn cyflawni'r targed? 24
- Cynllun Effeithlonrwydd a Chynhyrchiant Hed. Gog. Cym. 2008/11 26
- Sut yr awn ati i adrodd yn ôl ynghylch ein llwyddiannau 27
- Strategaeth Ariannol a Chynllun Ariannol Tymor Canol 27
- Prisio ein blaenoriaethau 27
- Datganiadau Cyfrifon 29

Cyflwyniad

Mae Heddlu Gogledd Cymru ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru yn cydnabod, yn unol â Blaenoriaethau Plismona Strategol yr Ysgrifennydd Cartref, fod yn rhaid i ddinasyddion fod yn ganolog i bob peth a wnawn. Gyda strwythur rheoli perfformiad a phartneriaethau cadarn, byddwn yn cyflwyno ein addewid plismona, fydd yn sicrhau cymunedau diogelach a chryfach i bobl Gogledd Cymru trwy gryfhau hyder mewn plismona lleol.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys ein strategaeth ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer y tair blynedd nesaf. Ei nod yw rhoi pwrpas ac arweiniad i'n staff a'n partneriaid ynghyd â chryfhau hyder a diddordeb y cyhoedd yn ein gwaith.

Yn unol ag agenda'r llywodraeth, ein pwyslais pennaf yw gwella hyder mewn plismona yn lleol. Ein nod yw cyflawni hyn trwy ganfod a mynd i'r afael â materion perthnasol i drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n achosi'r mwyaf o bryder ar lefel leol. Byddwn yn gwrando'n fwy astud ar bryderon y cyhoedd ac yn rhoi gwasanaeth o ansawdd fydd yn gwella tawelwch meddwl a bodlonrwydd. Byddwn yn canolbwyntio ar wella trwy gyfrwng Ymgyrch *QUEST*; sef menter sy'n cynorthwyo heddluoedd i wella perfformiad mewn perthynas â bodlonrwydd cwsmeriaid.

Trwy gydweithio, byddwn yn adeiladu partneriaethau cryfach ac yn gweithio ar draws ffiniau heddluoedd er mwyn cael gwelliannau er budd Gogledd Cymru a'r wlad yn gyffredinol. Mae ein brwydr yn erbyn bygythiad terfysgaeth yn dibynnu'n helaeth ar yr hyder sydd gan gymunedau lleol yng ngwasanaeth yr heddlu. Byddwn yn ychwanegu at lwyddiant plismona cymdogaethau er mwyn cael mwy o ymddiriedaeth a hyder trwy barhau i osod swyddogion yng nghanol ein cymunedau.

Bydd mabwysiadu'r Addewid Plismona yn gwella ein hymrwymiad i blismona cymdogaethau. Byddwn yn datblygu addewidion timau plismona cymdogaethau er mwyn eich sicrhau eich bod yn cael gwasanaeth rhagorol ar lefel leol. Hefyd, bydd mabwysiadu Safonau Cydraddoldeb gwasanaeth yr heddlu yn ychwanegu at ymrwymiad cymunedau ac yn gwella hyder trwy amlygu ein hymgyrch parhaus i integreiddio cydraddoldeb ar draws y gwasanaeth.

Byddwn yn parhau â'n llwyddiant yn datblygu'r Strategaeth Effeithlonrwydd a Chynhyrchiant genedlaethol er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chynhyrchiant cynaliadwy. Disgwylir i heddluoedd ac awdurdodau sicrhau arbedion o 9.3% fan leiaf dros y tair blynedd 2008-2011. O safbwynt Heddlu Gogledd Cymru, ar hyn o bryd mae hyn yn cyfateb i £13.597 miliwn fydd yn cael ei fuddsoddi mewn gwasanaethau fydd yn cryfhau cynhyrchiant a pherfformiad.

Yn cadarnhau ein hymrwymiad i ragoriaeth, am yr ail flynedd o'r bron, rydym wedi derbyn y radd uchaf bosib gan Swyddfa Archwilio Cymru yn yr asesiad diweddar, sef Defnydd yr Heddlu o Adnoddau (PURE). Mae hyn yn cadarnhau ein bod yn parhau i ddefnyddio adnoddau yn y modd gorau bosib er mwyn darparu gwasanaeth o ansawdd.

Bydd parhau i ganolbwyntio ar arbedion effeithlonrwydd yn sicrhau mwy o ganlyniadau neu well canlyniadau am yr un faint o arian neu am lai o arian. Un her sy'n ein hwynebu fodd bynnag yw sicrhau bod y cyhoedd yng Ngogledd Cymru yn ymwybodol o'n llwyddiant sydd, yn ei dro, yn galluogi pobl i deimlo'n ddiogel ac yn hyderus yn eu cartrefi a'u cymunedau.

Strategaeth ar y Cyd

Mae'r cynllun strategaeth tair blynedd sy'n treiglo, fydd yn cael ei ddiwygio a'i gyhoeddi o'r newydd bob blwyddyn, yn cynnwys manylion sut byddwn yn ystod 2009/12 yn darparu gwasanaeth plismona ardderchog sy'n caniatáu pobl Gogledd Cymru i fyw eu bywydau yn ddiogel ac yn hyderus eu bod yn cael eu gwarchod

rhag trosedd a'i effeithiau. Byddwn yn canolbwyntio ar blismona cymdogaethau ac yn ychwanegu at y llwyddiant a gafwyd eisoes yn gwella ymddiriedaeth a hyder. Er gwaethaf yr arbedion effeithlonrwydd heriol sydd i'w gwireddu, byddwn yn cyflawni arbedion cynaliadwy o flwyddyn i flwyddyn. Trwy roi mwy o gyfleoedd i'r cyhoedd ddylanwadu ar flaenoriaethau lleol a thrwy ddarparu gwasanaeth mwy personol, byddwn yn ymdrechu i sicrhau ein bod yn rhoi gwasanaeth heddlu effeithlon ac effeithiol fydd yn rhoi gwerth am arian ac yn sicrhau ar yr un pryd y tawelwch meddwl y mae pobl Gogledd Cymru yn ei haeddu.

Un o'n blaenoriaethau allweddol yw eich cadw'n ddiogel a gwrando arnoch er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth yr ydych ei angen. Ar yr un pryd rydym am eich sicrhau mai dyma un o'r mannau diogelaf i fyw ynddo yn y Deyrnas Unedig a bod trosedd yn parhau i ostwng.

Swyddogaeth Awdurdod yr Heddlu

Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru……

1. Ar hyn o bryd mae ganddo 16 aelod - 9 ohonynt yn aelodau gynghorwyr a 7 yn aelodau annibynnol a benodwyd o'r cymunedau;
2. Yn gorff cyhoeddus sy'n bodoli er mwyn sicrhau fod Heddlu Gogledd Cymru yn darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon;
3. Yn ymgynghori a chysylltu â phobl leol i sicrhau bod cymunedau yn cael dweud eu dweud ynghylch plismona eu hardaloedd;
4. Yn dal y Prif Gwnstabl yn atebol am y gwasanaeth plismona;
5. Yn pennu cyllideb yr heddlu ac yn goruchwylio sut bydd yr adnoddau yn cael eu dyrannu;
6. Yn penodi'r Prif Gwnstabl, y Dirprwy Brif Gwnstabl a'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol;
7. Yn gosod blaenoriaethau a thargedau plismona;
8. Yn cyhoeddi Cynllun Blynyddol, ynghyd â Chynllun Strategol Tair Blynedd sy'n dweud wrth bobl leol beth y gallant ddisgwyl ei gael gan eu Gwasanaeth Heddlu;
9. Yn goruchwylio cwynion yn erbyn yr heddlu a delio â materion disgyblu cysylltiedig â phrif swyddogion;
10. Yn penodi, hyfforddi a rheoli Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol er mwyn sicrhau bod pobl mewn dalfeydd yn cael eu trin yn y modd priodol.

I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn ag Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, yn cynnwys dyddiadau cyfarfodydd cyhoeddus neu gyfarfodydd ymgynghori, neu i roi sylwadau ar y cynllun hwn, cliciwch ar y cyswllt i Wefan Awdurdod yr Heddlu.

Blaenoriaethau Plismona Blynyddol 2009/10 ac Amcanion Strategol 2009/12

Blaenoriaethau Plismona Strategol Cenedlaethol 2009-10

Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref Ddatganiad Gweinidogol oedd yn cynnwys y Blaenoriaethau Strategol Cenedlaethol ar gyfer 2009-2010.

Mae'r Blaenoriaethau Strategol Cenedlaethol, yn unol â'r Papur Gwyrdd ar Blismona, yn adlewyrchu'r angen am fargen newydd rhwng yr heddlu a'r cyhoedd, a rhwng y gwasanaeth a'r llywodraeth. Mae cynyddu hyder mewn plismona lleol a darparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'r cyhoedd ar bob lefel yn uchel ar yr agenda. Mae'r Ysgrifennydd Cartref yn disgwyl y bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy gyfrwng cydweithio gyda phartneriaid perthnasol er mwyn mynd i'r afael â throseddau difrifol a chyfundrefnol ac er mwyn gwella gallu'r gwasanaethau amddiffynnol.

Y Blaenoriaethau Strategol Cenedlaethol yw:

- Gwella hyder y cyhoedd yn yr heddlu, lleihau trosedd yn unol â Chytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus (PSA) 23 a 25, a chyfrannu mewn modd effeithiol at weithio mewn partneriaeth o fewn y Sector Cyfiawnder Troseddol yn unol â PSA24;
- Cydweithio gyda heddluoedd ac asiantaethau eraill, megis yr Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol ac Asiantaeth Ffiniau'r Deyrnas Unedig, i sicrhau bod gallu ar draws Cymru a Lloegr i ddarparu gwasanaethau amddiffynnol effeithiol, mynd i'r afael â throseddau difrifol a throseddau cyfundrefnol, a bod gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gwneud;
- Mynd i'r afael â gwrth derfysgaeth ac eithafiaeth dreisgar yn unol â'r Strategaeth Gwrth Derfysgaeth (CONTEST) trwy weithio gyda, a thrwy gyfrwng, partneriaid a chymunedau lleol; a
- Gweithio gyda phob un o'r uchod, yn unol â'r Strategaeth Effeithlonrwydd a Chynhyrchiant ar gyfer Gwasanaeth yr Heddlu, er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau i ddarparu: gwelliannau y gellir eu troi'n arian arwyddocaol; defnydd mwy effeithiol o'r gweithlu; a sicrhau buddiannau technoleg newydd

Blaenoriaethau Plismona Blynyddol Heddlu Gogledd Cymru 2009-10

Mae ein Blaenoriaethau Plismona Blynyddol yn adlewyrchu'r materion hynny a ystyrir y rhai pwysicaf i gael sylw'r heddlu yn ystod 2009/10. Fe'u pennwyd gennym yn sgîl gwrando ar yr amryw gyrff cyhoeddus a chymunedau a wasanaethir gennym. Maent hefyd yn cymryd i ystyriaeth Flaenoriaethau Plismona Cenedlaethol yr Ysgrifennydd Cartref ynghyd â'r angen i weithio'n unol â Strategaeth Effeithlonrwydd a Chynhyrchiant gwasanaeth yr heddlu.

- Rhoi gwasanaeth o ansawdd uwch i bobl yr ydym yn dod i gysylltiad â hwy
- Gwella diogelwch plant, pobl ifanc a phobl ddiamddiffyn eraill
- Gwella'r prosesau o atal, ymchwilio i a datgelu troseddau difrifol a threisgar
- Darparu gwasanaeth plismona cymunedol amlwg iawn
- Lleihau lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig ag alcohol

Mae gan Flaenoriaethau Plismona Blynyddol ddangosyddion perfformiad penodol ynghyd â thargedau i fesur llwyddiant a sicrhau gwelliannau.

Dangosyddion Perfformiad a Thargedau Heddlu Gogledd Cymru

Detholwyd y Dangosyddion Perfformiad a'r targedau ar sail y meini prawf canlynol:

Mae'n rhaid i'r dangosyddion perfformiad:

- fod wedi'u mesur eisoes ble bynnag y bo hynny bosib
- feddu ar linell sylfaen y gellir mesur cynnydd yn ei herbyn
- fod yn hawdd i'w deall heb lawer o ofyn am esboniadau
- fod yn berthnasol i ganlyniadau'r gwaith a wnaed gan yr heddlu
- fod o fewn pwerau'r Heddlu i ddylanwadu ar ganlyniadau

Mae'n rhaid i'r targedau:

- ystyried perfformiad blaenorol
- ystyried perfformiad cyfoes
- ystyried perfformiad yr Heddluoedd Tebycaf
- gynnig digon o her i ddangos gwir welliannau
- fod o fewn cyrraedd gyda'r adnoddau sydd ar gael

Cynhaliwyd ymgynghori a thrafodaethau helaeth rhwng yr Heddlu ac Awdurdod yr Heddlu er mwyn sicrhau fod y meini prawf uchod yn cael eu dilyn wrth ddatblygu'r dangosyddion perfformiad a thargedau canlynol.

Blaenoriaeth Flynyddol	Cyf	Dangosydd	Targed 09/10	Nodiadau
Rhoi gwasanaeth o ansawdd uwch i bobl yr ydym yn dod i gysylltiad â hwy	1	Dioddefwyr troseddau cyffredinol oedd yn fodlon â'r holl brofiad	90%	Mae'r dangosyddion hyn yn seiliedig ar arolygon dioddefwyr a gynhaliwyd yn unol â chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Mae'r holl ganlyniadau yn cynrychioli Gogledd Cymru.
	2	Dioddefwyr trosedd oedd yn fodlon gyda'r hyn a wnaethpwyd wedyn	75%	
	3	Dioddefwyr Gwrthdrawiadau Traffig y Ffyrdd oedd yn fodlon gyda'r hyn a wnaethpwyd wedyn	75%	
	4	Ateb galwadau 999 o fewn 10 eiliad	92%	Yn adlewyrchu pwynt 5 Addewid yr Heddlu.
	5	Ymateb i alwadau 999 mewn ardaloedd trefol o fewn 15 munud	90%	Yn adlewyrchu pwynt 5 Addewid yr Heddlu.
	6	Ymateb i alwadau 999 mewn ardaloedd gwledig o fewn 20 munud	90%	Yn adlewyrchu pwynt 5 Addewid yr Heddlu.
	7	Ateb pob galwad heb fod yn argyfwng yn brydlon (o fewn 40 eiliad)	91%	
	8	Yn fodlon ei bod yn hawdd i gysylltu	95%	
	9	Cwynion Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu a ddatryswyd yn lleol	53%	
Gwella diogelwch plant, pobl ifanc a phobl ddiamddiffyn eraill	10	Cyfraddau datgelu â sancsiwn dioddefwyr ifanc (17 mlwydd oed ac yn iau)	45%	
	11	Cyfraddau datgelu â sancsiwn dioddefwyr 65 mlwydd oed a hŷn	18%	
	12	Lleihau'r nifer o wrthdrawiadau sy'n cynnwys gyrwyr ifanc a achosodd farwolaeth / anaf	-10%	
	13	Lleihau'r nifer o unigolion sy'n dioddef dro ar ôl tro (blwyddyn hyd fis Tachwedd 08)	-10%	
	14	Erlyniadau llwyddiannus newydd am gamdriniaeth ddomestig	892 (+10% ar ragamcan diwedd blwyddyn 2008/09 sef 811)	
	15	Y gyfran o ymchwiliadau i gam-drin plant sy'n cael eu harwain gan neu sy'n cynnwys yr heddlu lle mae goruchwyliaeth yn cydymffurfio â pholisi'r heddlu	100%	
	16	Mesuriad cydymffurfiaeth â pholisi'r Heddlu mewn perthynas â swyddogion monitro sy'n ymweld â Throseddwyr Rhyw Cofrestredig	90%	
Gwella'r prosesau o atal, ymchwilio i a datgelu	17	Cyfradd Ddatgelu â Sancsiwn - Pob Trosedd	45%	
	18	Cyfradd Ddatgelu â Sancsiwn – Troseddau Treisgar Mwyaf Difrifol	60%	Mae Troseddau Treisgar Mwyaf Difrifol

Blaenoriaeth Flynyddol	Cyf	Dangosydd	Targed 09/10	Nodiadau
troseddau difrifol a threisgar	19	Cyfradd Troseddau Treisgar Mwyaf Difrifol a gofnodwyd fesul 1000 o bobl	-10%	yn cynnwys - Llofruddiaeth, Bygythiad i lofruddio, Dynladdiad, Babanladdiad, Achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus, Clwyfo neu weithred arall sy'n bygwth bywyd, Niwed Corfforol Difrifol heb fwriad
	20	Cyfradd Ddatgelu â Sancsiwn – Troseddau Casineb	60%	
	21	Cynyddu'r Gyfradd Ddatgelu â Sancsiwn – Troseddau Trais Rhywiol	25%	
Darparu gwasanaeth plismona cymunedol amlwg iawn	22	Canran Rheolwyr Rhawd sydd mewn swydd weithredol	95%	
	23	Canran Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu sydd mewn swydd weithredol	90%	
	24	Canran yr amser mae Rheolwyr Rhawd yn ei wario allan o'r orsaf	75%	
	25	Canran yr amser mae Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu yn ei wario allan o'r orsaf	85%	
	26	Canran yr amser mae Timau Plismona Cymdogaethau yn ei wario yn gweithio'n amlwg yn eu cymdogaethau	80%	Yn adlewyrchu pwynt 3 Addewid yr Heddlu.
Lleihau lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig ag alcohol	27	Digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig ag alcohol a gofnodwyd	Datblygu llinell sylfaen ar gyfer 09/10	
	28	Nifer o brofion prynu a gynhaliwyd	Cynnydd o 20% yn y nifer o brofion	
	29	Canran y plant a phobl ifanc a arestiwyd (am unrhyw drosedd) oedd dan ddylanwad alcohol	Datblygu llinell sylfaen 09/10	Cofnodi o'r newydd o 2009 – yn cael ei gynnwys fel gwybodaeth rheoli er mwyn datblygu dealltwriaeth o'r maes

Targed Hyder

Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref un targed hyder ar gyfer Heddluoedd ac Awdurdodau Heddluoedd Cymru a Lloegr. Y targed yw cynyddu hyder y cyhoedd 15% er mwyn rhoi sylw'n lleol i faterion perthnasol i drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n bwysig i'r cyhoedd.

Un rhan yn unig o'r Papur Gwyrdd ar Blismona a gyhoeddwyd yr haf diwethaf yw'r targed cenedlaethol. Mae'n arwydd o newid sylfaenol o safbwynt atebolrwydd a'r angen i heddluoedd adrodd yn ôl. Pobl leol yn hytrach na'r llywodraeth ganolog sydd bellach yn dweud wrth yr heddlu pa wasanaethau maent eu hangen, a phobl leol sy'n eu dal yn atebol trwy gyfrwng Yr Addewid Plismona. Mae'r Addewid Plismona, sydd bellach yn weithredol ym mhob un o'r 43 heddlu yng Nghymru a Lloegr, am y tro cyntaf yn esbonio'r hyn all y cyhoedd ei ddisgwyl gan yr heddlu yn genedlaethol ac yn lleol - megis safonau isaf o safbwynt amseroedd ymateb, mapiau trosedd, gwybodaeth am droseddau yn lleol, a chyfarfodydd cyhoeddus misol.

Gosodwyd targed ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru ac Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru i gynyddu hyder y cyhoedd o 44.7% yn y flwyddyn hyd fis Medi 2008 i 59.3% erbyn mis Mawrth 2012. Y targed carreg filltir yw 54.3% erbyn mis Mawrth 2011.

Bydd y targed hyder yn cael ei fesur trwy gyfrwng cwestiynau a ofynnir yn rheolaidd yn Arolwg Trosedd Prydain. Mae tua 1,000 o bobl o Ogledd Cymru yn cymryd rhan yn Arolwg Trosedd Prydain bob blwyddyn.

Amcanion Strategol Heddlu Gogledd Cymru 2009-12

Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth, mae Heddlu Gogledd Cymru wedi gosod blaenoriaethau plismona strategol sy'n cynnwys manylion y trefniadau arfaethedig ar gyfer plismona Gogledd Cymru dros y tair blynedd nesaf. Yn wahanol i flaenoriaethau plismona blynyddol, nid oes dangosyddion perfformiad ynghlwm ag amcanion plismona strategol. Ond, mae yno amcanion hirdymor sy'n cynnwys manylion ynghylch y cyfeiriad y dylid ei gymryd dros gyfnod y cynllun.

Oherwydd bod y cynllun yn cael ei ddiwygio bob blwyddyn, bydd cynnydd yn digwydd yn erbyn yr amcanion a byddant yn cael eu diweddaru yn ôl y galw.

Mewn rhai amgylchiadau, o ganlyniad i agendâu lleol a chenedlaethol ynghyd â chasgliadau sy'n deillio o waith ymgynghori, gall amcan symud i fyny'r agenda.

Gall hyn achosi iddo fod yn flaenoriaeth flynyddol gyda dangosyddion perfformiad a thargedau ynghlwm.

Gwnaethpwyd asesiad risg ar gyfer pob amcan a rhoddwyd adnoddau i bob un er mwyn cynorthwyo gyda'u darparu:

- **Atal troseddu: Lefelau is o ymddygiad gwrthgymdeithasol**

Mae'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru yn nodi ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gyson fel mater sy'n peri gwir bryder, ac mae'n broblem y maent yn dymuno i'r heddlu ac asiantaethau eraill fynd i'r afael â hi. Dros y tair blynedd nesaf byddwn yn parhau i ddatblygu ein cynllun Dyna Ddigon llwyddiannus a'i ddefnyddio fel catalydd i feithrin mentrau partneriaeth a gorfodaeth cryf er mwyn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Byddwn yn cynnwys y cyhoedd ac yn canfod y troseddau a'r anhrefn 'arwydd' sy'n peri'r pryder mwyaf iddynt. Yna byddwn yn cydweithio gyda'r cyhoedd i fynd i'r afael â'r materion hynny. Byddwn yn gwella ein sylfaen o wybodaeth i sicrhau bod y tactegau mae'r heddlu, ein partneriaid a'r cyhoedd yn eu defnyddio yn fwy a mwy effeithlon ac effeithiol a bob amser yn foesegol.

- **Amddiffyn y rhai sydd mewn perygl: Gwella diogelwch plant, pobl ifanc a phobl ddiamddiffyn eraill**

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cydnabod bod plant a grwpiau diamddiffyn eraill angen gwasanaethau ychwanegol gan yr heddlu, a'u bod o bosib yn methu amddiffyn eu hunain neu'n methu gofyn am ymateb priodol gan yr Heddlu. Mae gennym ddyletswydd i sicrhau eu bod yn derbyn yr ymateb gan yr Heddlu y mae ganddynt hawl i'w dderbyn. Yn syml, yr hyn yw amddiffyn plant ac oedolion diamddiffyn yw dyletswydd i ymchwilio i droseddau a gyflawnir yn eu herbyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gwarchod rhag niwed.

Blaenoriaethau Heddlu Gogledd Cymru wrth ymateb i gam-drin ac esgeuluso plant yw:

- Amddiffyn bywydau plant a sicrhau wrth blismona cam-drin plant mai lles pob plentyn yw'r peth pwysicaf
- Ymchwilio i bob adroddiad am gam-drin ac esgeuluso plant a gwarchod hawliau plant sy'n dioddef troseddau
- Ymchwilio i gam-drin plant a diogelu plant fel prif ran o weithgareddau plismona
- Cymryd camau yn erbyn troseddwyr er mwyn eu dal yn atebol dan y system cyfiawnder troseddol, wrth ddiogelu lles plentyn
- Mabwysiadu dull amlasiantaeth rhagweithiol er mwyn lleihau ac atal cam-drin ac esgeuluso plant

Blaenoriaethau Heddlu Gogledd Cymru wrth ymateb i oedolion diamddiffyn yw:

- Sicrhau bod preifatrwydd, urddas, annibyniaeth, dewis a hawliau unigolion yn hysbysu ac yn arwain unrhyw ymchwiliadau a wneir
- Cynnal ymchwiliadau trylwyr i droseddau sy'n dod i'n sylw
- Cymryd camau yn erbyn troseddwyr er mwyn eu dal yn atebol dan y system cyfiawnder troseddol am yr hyn a wnaethant
- Rhoi lefel gwasanaeth mae dioddefwyr yn eu haeddu ar ffurf benodol i anghenion yr unigolyn
- Trwy weithio gydag asiantaethau partner, byddwn yn cyfrannu at gynlluniau gwarchod amlasiantaeth ar gyfer unrhyw unigolion diamddiffyn sydd angen eu diogelu

Trwy weithio gydag asiantaethau partner a chydweithwyr yn heddluoedd eraill Cymru, byddwn yn parhau i ddatblygu prosesau a gweithdrefnau sy'n cydymffurfio ag arferion gorau.

- **Amddiffyn y rhai sydd mewn perygl: Gwella diogelwch defnyddwyr ffyrdd Gogledd Cymru**

Dros y tair blynedd nesaf byddwn yn ceisio gwella diogelwch defnyddwyr y ffyrdd trwy ostwng y nifer o bobl sy'n marw neu'n cael eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd yn unol â thargedau'r Adran Drafnidiaeth.

Yr egwyddorion y byddwn yn eu dilyn yn ein gweithgareddau fydd Addysg, Gorfodaeth, a Saernïaeth. Bydd ein gwaith gorfodi yn ceisio cynyddu cydymffurfiad â deddfwriaeth diogelwch y ffyrdd o safbwynt troseddau sydd fwyaf tebygol o achosi neu arwain at farwolaethau neu anafiadau difrifol. Cyfeirir at y rhain fel 'Y Pump Angheuol' - Gyrru dan ddylanwad alcohol / cyffuriau, Goryrru, Gwisgo gwregysau diogelwch, Defnyddio ffonau symudol wrth yrru, a Gyrru peryglus.

Byddwn yn gweithredu egwyddorion y Model Cudd-wybodaeth Cenedlaethol yn llawn ac yn targedu problemau wrth iddynt ddod i'r amlwg. Y rhain ar hyn o bryd yw beiciau modur a gyrwyr ifanc sy'n ymddangos mewn modd anghymesur yn ein ffigyrau anafusion. Trwy weithio mewn partneriaeth gyda'r Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr (VOSA) byddwn yn cynnal gweithgareddau gorfodi llym sy'n targedu Gweithredwyr Cerbydau Llwythi Trwm er mwyn cael gwelliannau arwyddocaol o safbwynt cydymffurfio â deddfwriaethau diogelwch y ffyrdd. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn rhoi hyfforddiant arbenigol i Swyddogion Uned Plismona'r Ffyrdd ac, erbyn 2012, bydd 70% o'r swyddogion hynny wedi eu hachredu. Byddwn yn defnyddio technoleg i dargedu grwpiau risg uchel; sef pobl heb yswiriant, unigolion sydd wedi cael eu gwahardd rhag gyrru, gyrwyr meddw a throseddau goryrru. Rydym yn cynyddu'r arfer o drin troseddwyr gyrru trwy gynnig cyfle i fynychu'r Cynllun Gwella Gyrwyr Cenedlaethol, Cyrsiau Ymwybyddiaeth Cyflymder a chynlluniau Ymyrryd a Datblygu Profiad Beicwyr Modur yn hytrach na Chosb Benodol. Ein nod fydd sicrhau bod 100% yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol i wregysau diogelwch a ffonau symudol a byddwn yn rhoi'r Asesiad Strategol a Strategaeth Reoli gyntaf yng Nghymru ar gyfer Plismona'r Ffyrdd ar waith.

Byddwn yn datblygu ein hagenda Plismona'r Ffyrdd Gymunedol ymhellach trwy hyrwyddo'r cynllun Gwirio Cyflymder Cymunedol, Beicio Diogel, Swyddogion Ffyrdd Diogelach, Cyswllt Ysgolion a Hyfforddiant Gyrwyr. Cydlynir y gwaith gan ddau Ringyll Plismona'r Ffyrdd Cymunedol. Byddwn yn parhau i feithrin partneriaethau gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr (VOSA), Awdurdodau Priffyrdd, Iechyd ac Addysg lleol yn ogystal â Mudiadau Gwirfoddol.

Y rhai sy'n bennaf gyfrifol am y gwaith hwn yw Swyddogion Plismona'r Ffyrdd Arbenigol, Uned Gudd-wybodaeth y Gwasanaethau Amddiffynnol a Phartneriaeth Camerâu Diogelwch Cymru gyfan. Y rhai sydd â chyfrifoldeb eilaidd dros y gwaith yw swyddogion yn yr Uned Rheoli Gwrthdaro, Cefnogaeth o'r Awyr a'r Uned Gŵn.

- **Amddiffyn y rhai sydd mewn perygl: Atal terfysgaeth / eithafiaeth**

Bydd Heddlu Gogledd Cymru ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i ddilyn strategaeth CONTEST y Llywodraeth – strategaeth diogelwch cenedlaethol sydd wedi'i rhannu'n bedair brif elfen: ATAL, YMLID, AMDDIFFYN a PHARATOI.

Mae'r elfen ATAL yn mynd i'r afael â radicaleiddio unigolion. Pwrpas yr elfen YMLID yw lleddfu'r bygythiad o du terfysgaeth i'r Deyrnas Unedig ac i fuddiannau'r Deyrnas Unedig dros y môr trwy ddrysu terfysgwyr a'u hymgyrchoedd. Nod yr elfen AMDDIFFYN yw gwneud y Deyrnas Unedig a buddiannau'r Deyrnas Unedig dros y môr yn llai bregus. Mae hyn yn cynnwys sawl peth; cryfhau diogelwch ein ffiniau; diogelu cyfleustodau allweddol – gweithio gyda'r sector cyhoeddus; cludiant – lleddfu'r perygl a lleihau effaith ymosodiadau trwy ddatblygu diogelwch a thechnoleg; a mannau prysur - amddiffyn pobl wrth eu bywyd bob dydd. Bwriad yr elfen PARATOI yw sicrhau bod y Deyrnas Unedig mor barod ag y gall fod ar gyfer canlyniadau ymosodiad gan derfysgwyr. Yr elfennau allweddol yw:

- Canfod y risgiau dichonol mae'r Deyrnas Unedig yn eu hwynebu o du terfysgaeth, ac asesu eu heffaith
- Datblygu'r galluoedd angenrheidiol i ymateb i unrhyw ymosodiadau

Mae'r heddlu'n gweithio'n unol â chynlluniau gwaith a ddiffiniwyd yn genedlaethol er mwyn sicrhau bod darpariaeth y strategaeth yn effeithlon ac yn effeithiol. Ei nod yw cryfhau ein gwytnwch pe bai ymosodiad, a chynyddu ein gallu i olrhain unigolion sydd â'r nod o gyflawni terfysgaeth.

I wneud hyn, enwebwyd arweinydd CONTEST o fewn yr heddlu, a phenodwyd arweinyddion ar gyfer pob llinyn unigol yn ôl y galw yn unol â gweithrediad strwythuredig y strategaeth gyffredinol. Cefnogir hyn trwy ddatblygu a chwblhau cynlluniau darparu'r heddlu, ac mae'r gweithgareddau ar y llinyn ATAL, sef yr hyn sy'n cael y prif sylw ar y dechrau, ar y gweill ers tro. Y Grŵp Adolygu Diogelwch dan arweiniad y Prif Gwnstabl Cynorthwyol sy'n goruchwylio'r broses ar ran yr heddlu. Mae'r ffaith bod ein hasiantaethau partner perthnasol wedi llwyr ymrwymo yn cefnogi'r gweithgareddau ymhellach, yn ogystal â datblygiad byrddau CONTEST Rhanbarthol Amlasiantaeth.

Ers i bedwar Prif Gwnstabl Cymru gytuno i sefydlu Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru (WECTU), mae'r gwaith gweithredu bron wedi ei gwblhau ac mae gwasanaeth gwrthderfysgaeth Cymru gyfan bellach yn cael ei ddarparu. Prif egwyddor WECTU yw, er ei bod yn cael ei rheoli'n ganolog, bydd yr uned yn gweithredu'n lleol gan greu mwy o allu a phroffesiynoldeb i ddelio gyda'r bygythiad o Derfysgaeth ac Eithafiaeth Ddomestig sy'n bodoli ar hyn o bryd yng Nghymru.

- **Rheoli adnoddau: Dangos gwell effeithlonrwydd trwy well defnydd a rheolaeth o asedau**

Ein nod fydd gwneud defnydd mwy effeithiol byth o'n hasedion, gan gynnwys adeiladau, y fflyd a Technoleg Gwybodaeth, gwneud y mwyaf o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, torri costau a thrwy hynny, gynyddu gwerth am arian. Un agwedd allweddol ar y gwaith hwn fydd yn hwyluso'r broses o weithredu'r agenda hon fydd y rhaglen 'Ystwythder' sydd â'r nod o gynyddu'r defnydd o stad yr Heddlu a hefyd sicrhau bod pobl yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol bosibl o'u hamser. Y nod fydd rhyddhau costau diangen yn uniongyrchol i'r gwasanaethau rheng flaen. Bydd y defnydd o asedion yn cael eu mapio i'r gwasanaeth gweithredol a ddarperir er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau a mwyaf effeithiol ohonynt.

- **Gwella bodlonrwydd cwsmeriaid: Sicrhau ymateb teg ac o ansawdd i alwadau am gymorth**

Nod yr Adran Cyfathrebiadau Gweithredol, trwy gyfrwng ei Strategaeth Ansawdd Gwasanaeth a Bodlonrwydd, yw gwelliant parhaus, gan ganolbwyntio ar ansawdd a bodlonrwydd gyda'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Dros y tair blynedd nesaf, bydd y rhaglen waith cysylltiedig â hyn yn canolbwyntio ar yr amcanion canlynol: sicrhau fod yr holl staff yn ymwybodol o bwysigrwydd eu swyddogaeth yn cyrraedd at y safonau ansawdd uchaf o safbwynt bodlonrwydd cwsmeriaid; casglu data ystyrlon sy'n gwella busnes yn barhaus; deall a rhoi gwybod am feysydd lle mae cryfderau a gwendidau; bod yn atebol ac yn gyfrifol; a chynnal cydbwysedd rhwng mesurau a thargedau meintiol ac ansoddol. Bydd yr amcanion hyn yn cael eu cyflawni trwy asesu ansawdd trin galwadau a dosbarthu swyddogion, dadansoddi bodlonrwydd cwsmeriaid, rheoli adborth negyddol a chadarnhaol ar unwaith, cydymffurfiad angenrheidiol o safbwynt ansawdd data, ynghyd â chymharu gyda heddluoedd eraill.

Hefyd, mae Ymgyrch *QUEST* sef rhaglen gwella perfformiad wedi'i hariannu ar y cyd gan y Swyddfa Gartref a heddluoedd unigol ar waith yng Ngogledd Cymru. Mae'r rhaglen yn canfod cyfleoedd i wella perfformiad gweithredol trwy lunio dulliau gweithio o ansawdd. Ansawdd gwasanaeth a

bodlonrwydd cwsmer fydd canolbwynt y rhaglen hon. Y meysydd fydd yn cael sylw yng Ngogledd Cymru yw rheoli a datrys digwyddiadau; cofnodi ac ymchwilio i droseddau ynghyd â rheoli diffynyddion.

- **Rheoli enw da: Gwella lefel hyder y cyhoedd**

Yn sgîl arolygon a gynhaliwyd, craffu'n fanwl ar adborth a gafwyd gan y cyhoedd, ynghyd â dangosyddion perfformiad cenedlaethol, mae'n amlwg bod angen i ni barhau i ganolbwyntio ar wella hyder y cyhoedd, nid yn unig yn Heddlu Gogledd Cymru ond hefyd yn y gyfundrefn cyfiawnder troseddol ehangach, ac yn ein Partneriaid Diogelwch Cymunedol.

Byddwn yn gwella hyder a bodlonrwydd trwy ymgysylltu'n fwy effeithiol byth â'r cyhoedd, trwy ofalu ein bod yn cynnig gwasanaeth o ansawdd uchel yn gyson, trwy wrando a gweithredu ar adborth gan y cyhoedd, a thrwy ddatblygu ein dull o reoli perfformiad er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth o ansawdd. Byddwn yn buddsoddi mewn datblygu ein staff er mwyn eu cynorthwyo i roi gwasanaeth o ansawdd uchel yn gyson, a byddwn yn manteisio i'r eithaf ar dechnoleg i helpu ein staff roi gwasanaeth ardderchog.

Perfformiad: llwyddiannau a dangosyddion

Perfformiad 2008/09

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i fod yn un o'r heddluoedd sy'n perfformio orau yng Nghymru a Lloegr ac rydym yn parhau i wella ansawdd bywyd y bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Gogledd Cymru. Mae'r heddlu'n cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad lleol i'r cyhoedd yn fisol trwy gyfrwng Bwletin Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu, ac yn flynyddol yn Adroddiad Perfformiad y Prif Gwnstabl sy'n cynnwys data perfformiad o fis Mawrth 2008 hyd at fis Ebrill 2009.

Hefyd, mae gan drigolion ar draws Gogledd Cymru fynediad at yr wybodaeth ddiweddaraf am droseddau lleol trwy gyfrwng map trosedd rhyngweithiol sy'n rhan o ymrwymiad gwasanaeth yr heddlu i gryfhau ymgysylltiad â'r gymuned. Mae cyswllt at y map ar dudalen flaen gwefan yr heddlu. Mae'n rhoi cyfle i'r cyhoedd weld lle digwyddodd trosedd; cymharu ag ardaloedd eraill; a gweld sut mae timau plismona cymdogaethau lleol yn mynd i'r afael â'r troseddau.

Mae Awdurdod yr Heddlu hefyd yn cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n cynnwys sylw ar berfformiad yr Heddlu dros y flwyddyn flaenorol. Dilynwch y cyswllt i wefan Awdurdod yr Heddlu i weld Adroddiad Blynyddol Ian Roberts, Cadeirydd Awdurdod yr Heddlu.

Defnydd yr Heddlu o Adnoddau (PURE)

Heddlu Gogledd Cymru yw un o'r deuddeg Heddlu yn y Deyrnas Unedig i dderbyn Gradd 4 yn yr Asesiad o Ddefnydd yr Heddlu o Adnoddau (PURE) cenedlaethol yn 2007-2008 (sef yr asesiad PURE diweddaraf).

Swyddfa Archwilio Cymru sy'n cynnal yr asesiad PURE yng Nghymru, sy'n cynorthwyo archwilwyr i lunio barn ynghylch trefniadau Awdurdod yr Heddlu a'r Heddlu i sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau. Roedd yr asesiad yn edrych ar 5 thema – Adrodd yn ôl yn ariannol, Rheolaeth ariannol, Sefyllfa ariannol, Rheolaeth fewnol a Gwerth am arian. Dyfernir sgôr gyffredinol o rhwng 1, sy'n is na'r gofynion angenrheidiol, i 4, sydd ymhell uwchlaw'r gofynion angenrheidiol - perfformio'n gryf.

Mae'r asesiad yn broses sy'n cynnig cryn her trwy fesur pa mor economaidd, effeithlon ac effeithiol mae heddluoedd yn gwneud y mwyaf o'u hadnoddau. Mae hyn yn cadarnhau am yr ail flwyddyn o'r bron ein bod yn parhau i ddefnyddio adnoddau yn y modd gorau bosib ac yn tanlinellu ein hymrwymiad i ragoriaeth.

Dengys y graff canlynol bob heddlu yn ôl eu graddfa PURE. Mae'r Heddluoedd Tebycaf i Heddlu Gogledd Cymru yn 2007/08 wedi'u hamlygu: Mae'r grŵp hwn wedi newid ers hyn.



Datblygiadau dan PURE
Newidiwyd trefn PURE yn 2008-2009 er mwyn ystyried datblygiadau yn y llywodraeth ac er mwyn cydymffurfio â'r Asesiadau Ardal Cynhwysfawr. Bydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau a chasgliadau prosesau, a bydd gwerth am arian yn thema gyson yn y meysydd sy'n cael eu mesur.

Bydd y dull newydd yn canolbwyntio ar dri maes allweddol, sef Rheoli Arian, Llywodraethu Busnes a Rheoli Adnoddau Eraill. Mae'r fethodoleg yn 2008/2009 ar gyfer mesur canlyniadau wedi newid yn sylfaenol ac, er bod y broses o ddyfarnu graddau yn aros yr un fath, h.y. gradd 1 i radd 4, bydd yr asesiad newydd yn golygu mesur heddluoedd yn hollol wahanol i'r hen drefn PURE. Felly, ni fydd cymharu â chanlyniadau blaenorol yn bosib.

O ganlyniad, canlyniadau asesiad PURE 2008/2009 fydd y meincnod er mwyn sicrhau gwelliannau a datblygiadau. Rydym yn croesawu'r gwelliannau parhaus fydd PURE yn eu cyflwyno i Wasanaeth yr Heddlu fel modd o ddarparu tystiolaeth o safbwynt ein hymrwymiad i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau ac yn rhoi gwerth am arian i bobl Gogledd Cymru.

Arolygwyr Heddluoedd ei Mawrhydi

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Arolygwyr Heddluoedd ei Mawrhydi wedi parhau i ganolbwyntio ar feysydd busnes risg uchel, gan sicrhau bod heddluoedd unigol a gwasanaeth yr heddlu yn genedlaethol yn mabwysiadu dull cyson wedi'i gydlynu i fynd i'r afael â llawer o'r problemau mae pob heddlu'n eu hwynebu'n genedlaethol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae timau arolygu wedi ymweld â Gogledd Cymru i orchwylio ein dulliau a'n perfformiad o safbwynt Trosedd Difrifol a Chyfundrefnol, Troseddau Difrifol eraill, Plismona Cymdogaethau sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd, Argyfyngau Sifil, Trefn Gyhoeddus a Digwyddiadau Difrifol. Roedd y rhain yn archwiliadau helaeth, gyda'r arolygwyr yn cwrdd â'n partneriaid busnes ynghyd ag unigolion eraill sy'n gweithio'n agos â ni. Yn ystod 2008, roedd hyn yn cynnwys cwrdd ag aelodau o Lywodraeth Cynulliad Cymru, Fforwm Cymru Gydnerth a'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.

Perfformiad Heddlu Gogledd Cymru yw un o'r gorau yng Nghymru a Lloegr o hyd, o safbwynt perfformiad gweithredol ynghyd ag effeithlonrwydd, lle dyfarnwyd y raddfa uchaf am ddefnydd effeithiol o adnoddau. Er y perfformiad da, rydym yn awyddus i wella. Mae pob 'Maes Gwella' a 'Gwaith ar y Gweill' yn ymddangos ar fatrics cofnodi er mwyn sicrhau bod gweithgareddau gwella cysylltiedig yn digwydd. Lluniwyd cysylltiadau ar gyfer datblygiadau pellach gydag Awdurdod yr Heddlu er mwyn sicrhau eu bod yn darllen yr holl adborth ac yn cael gwybod am unrhyw weithgareddau gwella sy'n deillio o hynny.

Nid yw rhaglen arolygu 2009 eto wedi ei llunio, ond mae'r rhestr eisoes yn cynnwys Awdurdodau Heddluoedd, Gwrthderfysgaeth, a rheoli Troseddwyr Rhyw (arolwg thematig ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Prawf), archwilio ein gweithrediadau yng ngoleuni Ymchwiliad *Stockwell*, yr Addewid Plismona, arolwg sirol a'r Asesiadau Gorffenedig.

Mae copïau o'r adroddiadau ar gael ar y wefan Arolygaeth Heddluoedd ei Mawrhydi, yn http://inspectorates.homeoffice.gov.uk/hmic/Inspections/

APACS

Cyflwynwyd fframwaith APACS gyntaf ym mis Ebrill 2008. Mae'n cynnwys y gwasanaethau allweddol a ddarperir gan yr heddlu, yn gweithio ei hun neu mewn partneriaeth.

1. Hybu Diogelwch
2. Taclo Troseddaeth
3. Troseddau Difrifol ac Amddiffyn
4. Hyder a Bodlonrwydd
5. Rheoli'r Sefydliad

Nod y fframwaith yw bod yn sail ar gyfer dangos perfformiad i'r cyhoedd, a chynorthwyo partneriaid yng Nghymru a Lloegr i ddarparu a gwella perfformiad yn erbyn blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

Mae fframwaith mesur perfformiad llywodraeth leol Cymru yn wahanol i fframwaith Lloegr, ac mae'r Swyddfa Gartref wedi cydnabod na ellir defnyddio asesiadau APACS ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol Cymru yn yr un modd â Lloegr. Ond, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi amcanion strategol APACS y Swyddfa Gartref. Oherwydd nad oes unrhyw anghysonderau na thensiynau rhwng dangosyddion perfformiad APACS a strategaethau a thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae'r Swyddfa Gartref yn annog Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i ddefnyddio data APACS i fonitro tueddiadau a chynorthwyo gyda lleihau trosedd.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi set derfynol o 34 o ddangosyddion APACS ar gyfer 2009-10, a bydd gwaith datblygu yn parhau mewn perthynas â'r nifer o ddangosyddion fydd yn cael eu cynnwys mewn blynyddoedd i ddod. Mae mwy o wybodaeth ar gael trwy ddilyn y cyswllt i wefan y Swyddfa Gartref ar gyfer Asesiadau Plismona a Diogelwch Cymunedol.

Gweithio mewn Partneriaeth

Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSA)

Mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi gosod blaenoriaethau strategol ar gyfer 2009-10 ac wedi pwysleisio'r angen i wasanaeth yr Heddlu weithio ar y cyd â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol er mwyn cwrdd ag amcanion lleol.

Er mwyn gwella, mae'n rhaid i wasanaeth yr heddlu barhau i blismona'n effeithiol, ac mae hyn yn dibynnu ar gydweithredu effeithiol ynghyd â chydlynu gyda phartneriaid perthnasol. Er mwyn darparu'r Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n berthnasol i wasanaeth yr heddlu, mae' rhaid i ni weithio gyda'n partneriaid er mwyn cydlynu blaenoriaethau a gweithio tuag at flaenoriaethau cenedlaethol ar yr un pryd â diwallu anghenion lleol.

Y Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n berthnasol i'r heddlu yw:

PSA23: Gwneud Cymunedau'n Ddiogelach
Yn hytrach na gorchmynion gan y llywodraeth ganolog, cyfrifoldeb yr heddluoedd a'u partneriaid fydd deall hyd a lled trosedd a materion diogelwch cymunedol yn eu hardaloedd hwy, a dangos eu bod yn cymryd camau effeithiol i fynd i'r afael â hwynt.
Gall y rhain fod yn faterion bob dydd neu yn faterion eithriadol, o drais difrifol i droseddau caffael i ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Dilynwch y cyswllt i wefan Partneriaethau Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru i weld Cynlluniau Trosedd ac Anhrefn / Partneriaethau Diogelwch Cymunedol sy'n cynnwys manylion ynghylch sut y bydd y Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus yn cael eu darparu.

PSA24: Cyflwyno Cyfundrefn Cyfiawnder Troseddol mwy effeithiol, agored ac ymatebol i ddioddefwyr ac i'r cyhoedd
Mae'r PSA24 yn cyd-fynd â PSA23, ac fe'i lluniwyd i adeiladu ar y llwyddiant diweddar ym maes gostwng trosedd, ond mae'n canolbwyntio'n benodol ar amddiffyn y cyhoedd rhag y troseddau mwyaf difrifol.

Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru yn cwrdd i drafod sut gellir gwella Gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol yng Ngogledd Cymru, ac wedi ysgrifennu cynllun strategol ar gyfer y cyfnod 2008-2011 sy'n seiliedig ar dri amcan strategol:

1. Dioddefwyr a Thystion
2. Gostwng Aildroseddu
3. Yr Iaith Gymraeg

Bydd pedwerydd amcan yn cael ei ychwanegu ar gyfer 2009-2010 sef gwella gwaith asiantaeth.

Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol hefyd yn edrych ar ffyrdd o ddatblygu cysylltiadau agosach gyda chwe Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru, a bydd yn gweithio'n agosach ar feysydd sy'n cynnwys Troseddwyr Mynych a Throseddwyr Blaenoriaeth, Cam-drin Domestig ynghyd ag Ymgysylltiad Cymunedol.

Os hoffech ddarllen mwy ynghylch Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru, dilynwch y cyswllt isod: http://www.justicenorthwales.co.uk/

Mae'r cyswllt hwn yn mynd at y cytundeb i ddarparu PSA24: Cynllun Blynyddol y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol

PSA25: Lleihau'r niwed sy'n cael ei achosi gan alcohol a chyffuriau
Nod y Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus hwn yw sicrhau;
1. Bod llai o bobl yn datblygu problemau cyffuriau
2. Bod diwylliant diogel, call a chymdeithasol o yfed yn bodoli

Mae PSA25 yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru sy'n rhoi dyletswyth ar bob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol / Tîm Gweithredu Camddefnydd Sylweddau i baratoi Strategaeth Camddefnydd Sylweddau. Mae'r rhain hefyd ar gael ar wefan y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol.

PSA26: Lleddfu'r perygl i'r Deyrnas Unedig o du Terfysgaeth Rhyngwladol
I gyflawni'r Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus hwn, amcanion penodol y Llywodraeth yw: atal ymosodiadau gan derfysgwyr; lle nad ydym yn gallu rhwystro ymosodiad, lleddfu ei effaith; cryfhau ein hamddiffyniad cyffredinol yn erbyn ymosodiad gan derfysgwyr; atal pobl rhag troi'n derfysgwyr neu gefnogi eithafiaeth dreisgar.

Dilynwch y cyswllt i wefan Partneriaethau Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru i weld Cynlluniau Trosedd ac Anhrefn / Partneriaeth Diogelwch Cymunedol sy'n cynnwys manylion ynghylch sut y bydd y Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus yn cael eu darparu.

Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

Mae PSA23 a PSA25 yn cael eu cyflwyno mewn partneriaeth â phob un o'r 6 Partneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Mae'r diagram isod yn dangos y cyswllt rhwng pob partneriaeth sy'n cyfrannu at gyflawni'r Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus perthnasol o safbwynt y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol.



Mae'n rhaid i bob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol gyhoeddi cynllun lleol sy'n ymateb i'r ddogfen 'Darparu Cymunedau Diogelach' a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref. I gael gweld Cynlluniau Diogelwch Cymunedol pob Awdurdod Lleol, sydd wedi cael eu hysgrifennu mewn partneriaeth â nifer o ffynonellau, gan gynnwys yr heddlu, ac sy'n cynnwys manylion ar sut bydd y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn mynd i'r afael â'r gwahanol Gytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus, dilynwch y cysylltau isod i wefan pob Awdurdod Lleol.

Conwy: http://www.conwy.gov.uk/

Gwynedd: http://www.gwynedd.gov.uk/

Ynys Môn: http://www.anglesey.gov.uk/

Sir y Fflint: http://www.flintshire.gov.uk/

Wrecsam: http://www.wrexham.gov.uk/

Sir Ddinbych: http://www.denbighshire.gov.uk/

Gellir mynd i wefan pob Awdurdod Lleol hefyd trwy gyfrwng http://www.nwcsp.org.uk/

Ystyriaethau

Ymgynghori

Mae cynnwys y cyhoedd mewn penderfyniadau am blismona lleol yn rhan ganolog o waith Heddlu Gogledd Cymru ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru.

Rydym wedi ymroi i ddarparu ystod o gyfleoedd ar gyfer ymgynghori gyda'r cyhoedd. Rydym am alluogi pobl leol i gyfrannu mwy i'r broses o wneud penderfyniadau a chanfod atebion o safbwynt plismona'n lleol.

Mae nifer o ffyrdd y gallwch gymryd rhan yng ngwaith Heddlu Gogledd Cymru ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, ac rydym yn gwerthfawrogi cyfleoedd i siarad gyda chi ac i wrando ar eich barn.

Rydym yn defnyddio nifer o wahanol ddulliau o ymgynghori a chyfathrebu, yn cynnwys cyfarfodydd cyhoeddus ('Fforymau Cymunedol Awdurdod yr Heddlu' ydy'r enw a roddir arnynt a chynhelir 13 ohonynt yn ystod y flwyddyn mewn gwahanol leoedd yng Ngogledd Cymru). Mae gennym Banel Dinasyddion, a byddwn yn ymgynghori ar ffurf arolygon yn ogystal â thrwy gyfrwng ein gwefan. Mae yno hefyd Asesiadau o Fygythiad Strategol yr Heddlu, Grwpiau Gweithredu ar y Cyd (JAGS) ynghyd â Grwpiau Gweithredu sy'n rhoi sylw i broblemau mewn lleoliadau penodol yn y gymuned, a thrwy gynnal Grwpiau Ffocws gyda rhannau o'r gymuned sy'n anodd eu cyrraedd. Weithiau rydym yn ceisio eich barn ar bynciau penodol megis pa fath o gynnydd yn y gyllideb fyddech chi, fel rhywun sy'n Talu Treth y Cyngor, yn barod i'w gefnogi, ynghyd â blaenoriaethau plismona.

Mae "Llais y Gogledd" yn ddatblygiad cyffrous ym mhroses ymgynghori Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru. Panel Dinasyddion o 1,500 o bobl sy'n cynrychioli trawstoriad o'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru yw hwn. Ymgynghorir â'r Panel, a gafodd ei recriwtio gan gwmni ymchwilio i'r farchnad annibynnol, o bryd i'w gilydd ynghylch plismona yng Ngogledd Cymru ar ffurf holiaduron. Mae'r arolygon yn rhoi sylw i faterion megis blaenoriaethau plismona, tawelu meddwl y cyhoedd ac ariannu'r heddlu. Bu'r sylwadau a gafwyd yn yr arolwg o gymorth i Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru wrth baratoi cynlluniau plismona. Cynhaliwyd pumed arolwg Llais y Gogledd ym mis Hydref 2008. Roedd yn rhoi sylw i lefelau plismona, ymddygiad gwrthgymdeithasol, ymwybyddiaeth o bartneriaethau, barn ynghylch yr heddlu ynghyd â blaenoriaethau plismona.

Dilynwch y cyswllt i wefan Awdurdod yr Heddlu i weld adroddiad ymgynghori Llais y Gogledd. Mae yno fanylion cysylltu ar gael i aelodau o'r cyhoedd roi adborth.

Ymgyrch *QUEST*

Rhaglen gwella perfformiad yw Ymgyrch *QUEST* wedi'i hariannu ar y cyd gan y Swyddfa Gartref a heddluoedd unigol i gefnogi heddluoedd i wella perfformiad a chynhyrchiant yn sylweddol. Mae cyflawniadau a llwyddiannau Ymgyrch *QUEST* wedi cael sylw cadarnhaol yn nifer o gyhoeddiadau diweddar y llywodraeth, yn cynnwys Papur Gwyrdd 2008, *from the neighbourhood to the national*: *policing communities together*; a *The Review of Policing* (2008) Sir Ronnie Flanagan.

Bydd *QUEST* yn rhoi sylw i nifer o brosesau ac yn dangos sut gellir cyflawni effeithlonrwydd trwy ddefnyddio gwybodaeth y sawl sy'n gwneud hyn bob dydd. Dyma bedwerydd cam *QUEST* ac mae prosiectau peilot ar y gweill mewn pedwar heddlu, yn cynnwys Heddlu Gogledd Cymru. Bydd Heddlu Gogledd Cymru yn canolbwyntio i ddechrau ar y Rhanbarth Canolog am gyfnod o chwe mis a bydd gwelliannau yn cael eu cyflwyno ar draws yr heddlu erbyn mis Mawrth 2010. Amcanion y rhaglen yw:

- Ychwanegu at y gallu i gynnal gwaith gwella prosesau gweithredol parhaol
- Cael manteision cynaliadwy ym mhob heddlu sy'n cymryd rhan o safbwynt arbed amser swyddogion, cynyddu perfformiad a gwella bodlonrwydd cwsmeriaid

Y meysydd fydd yn derbyn sylw yw:

- Rheoli a Datrys Digwyddiadau
- Cofnodi ac Ymchwilio i Droseddau
- Rheoli Diffynyddion

I gael mwy o wybodaeth am Ymgyrch *QUEST* dilynwch y cyswllt at Wefan y Swyddfa Gartref.

Rhaglen Gwella Gwasanaethau Amddiffynnol 3 Blynedd

Yn 2007, rhoddwyd Rhaglen Gwella Gwasanaethau Amddiffynnol gyda chostau ar waith, gyda'r nod o gau bylchau mewn galluoedd mewn meysydd busnes perthnasol i wasanaethau amddiffynnol. Crëwyd Tîm Rheoli Digwyddiadau Difrifol yr Heddlu o fewn yr Adran Gwasanaethau Trosedd, rhoddwyd mwy o adnoddau i'r Uned Gwarchod y Cyhoedd, rhoddwyd mwy o gefnogaeth i gasglu cudd-wybodaeth a chrëwyd mwy o allu rhagweithiol i fynd i'r afael â throseddau difrifol a chyfundrefnol (troseddaeth lefel 2).

Yn ystod 2008, buddsoddwyd mewn gwytnwch o fewn Tîm Digwyddiadau Difrifol yr Heddlu, Gwarchod y Cyhoedd, swyddogaethau cudd-wybodaeth, ynghyd â mwy o allu o safbwynt gwrthderfysgaeth.

Bydd y cynllun hwn yn cael ei gadarnhau yn 2009, gan fuddsoddi mwy o adnoddau yn Nhîm Digwyddiadau Difrifol yr Heddlu, gwella galluoedd dadansoddi, ynghyd â mwy o allu i fynd i''r afael â throseddaeth difrifol a chyfundrefnol.

Yn ystod y cyfnod hwn, o ganlyniad i'r angen parhaus i asesu'r newidiadau mewn bygythiadau, peryglon a'r niwed i Ogledd Cymru, adroddiadau Arolygwyr Heddluoedd ei Mawrhydi, ynghyd â'r angen i gyrraedd y safonau lleiaf mewn Gwasanaethau Amddiffynnol erbyn 2011, cyfunwyd y swyddogaethau cefnogi a ddarparwyd cyn hyn gan yr Adrannau Gwasanaethau Trosedd a Gweithredol ar 1.4.09 pan grëwyd yr Adran Diogelwch Cyhoeddus.

Gweledigaeth yr Adran Diogelwch Cyhoeddus yw:

- gwella gallu drwy fuddsoddi yn y staff a'r offer gorau sydd ar gael
- gwella perfformiad a darpariaeth gwasanaeth trwy greu adran sy'n ateb y gofynion

Bydd Bwrdd Gwella Gwasanaethau Amddiffynnol yn cael ei lunio i oruchwylio rheolaeth a gweithrediad meysydd busnes Gwasanaethau Amddiffynnol ac i roi cefnogaeth i reolaeth a strwythurau 'cau'r bwlch'. Bydd y Bwrdd yn cynnwys y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, Prif Uwcharolygydd yr Adran Diogelwch Cyhoeddus ac aelodau enwebedig o Awdurdod yr Heddlu.

Bydd tîm bach yn cael ei lunio i reoli'r gwaith o newid a throsglwyddo ar ran yr Adran newydd. Bydd y tîm yn llunio cynllun darparu ac yn gosod cerrig milltir ar gyfer cyflawni'r agenda newid ac yn defnyddio arferion gorau a syniadau da.

Cydweithio

Mae pedwar Awdurdod Heddlu Cymru wedi llunio model cydweithio trwy sefydlu Awdurdodau Heddluoedd Cymru fel Cydbwyllgor. Llofnododd pedwar Awdurdod Heddlu Cymru gytundeb statudol Cydbwyllgor Plismona Cymru ym mis Gorffennaf 2007. Mae Awdurdodau Heddluoedd Cymru yn goruchwylio pob gwaith sy'n cael ei wneud ar y cyd.

Mae Awdurdodau Heddluoedd Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu galluoedd plismona strategol, yn cynnwys gwasanaethau amddiffynnol, er mwyn lleihau'r risg a berir gan adnoddau penodedig annigonol. Trwy gynnal asesiad strategol o'r bylchau, nodwyd y meysydd oedd angen lefel uchel o blismona yng Nghymru. Ym mis Mawrth 2008, cytunwyd ar Gynllun Plismona Cenedlaethol Cymru oedd yn ymrwymo pedwar heddlu Cymru i'r agenda cydweithio. O ganlyniad uniongyrchol i'r cydweithio, rhoddodd y Swyddfa Gartref £204,000 ychwanegol ar gyfer ymchwilio i droseddau difrifol a chyfundrefnol. Lluniwyd un Heddlu Arbennig yng Nghymru trwy sefydlu Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru er mwyn gwella gwytnwch a gallu o safbwynt eithafiaeth ddomestig a

gwrthderfysgaeth ym mhob rhan o Gymru. Awdurdodau Heddluoedd Cymru sy'n goruchwylio'r rhaglen.

Arweiniodd y cydweithio at fanteision sylweddol ac arbedion effeithlonrwydd i heddluoedd Cymru trwy ddiogelu cyllid ychwanegol ar ffurf cyfraniad o £5.6 miliwn i blismona yng Nghymru. Mae Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod cydweithio yn digwydd er mwyn gwella'r gwasanaethau plismona a ddarperir i'n cymunedau.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i ddatblygu'r dulliau cydweithio gyda heddluoedd eraill Cymru, sydd wedi arwain at fanteision gweithredol sylweddol, ynghyd â gwella prosesau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Menter atal e-drosedd Cymru gyfan. Mae pob heddlu'n cyfrannu staff i'r gwaith ar y cyd, gan sicrhau bod holl heddluoedd Cymru yn elwa ar y ffaith bod Ditectif Brif Uwcharolygydd o Ogledd Cymru yn arwain y gwaith pwysig o ddatblygu'r maes hwn ar draws y Deyrnas Unedig
- Mae Heddluoedd Cymru bellach wedi sefydlu Adnabod Dioddefwyr Trychinebau Cymru. Mae hwn yn wasanaeth hollol annibynnol ac mae Arolygwyr ei Mawrhydi wedi ei enwi fel enghraifft o 'arfer gorau'
- Mae llawer o gydweithio yn parhau yn y maes Gwasanaethau Amddiffynnol, gyda'r pedwar heddlu yn datblygu polisïau cyffredin ac ar y cyd. Rhannwyd ac adolygwyd amrywiol bolisïau troseddau difrifol ac mae nifer o bolisïau Cymru gyfan bellach mewn bodolaeth, a llawer o rai eraill yn cael eu hadolygu ac yn cael eu datblygu ar gyfer eu mabwysiadu ar hyn o bryd
- Mae adolygiadau yn dilyn gweithredu yn digwydd ar draws Cymru, gan ddosbarthu gwersi a ddysgwyd ymysg arweinwyr pob heddlu a thrwy hynny sicrhau bod pob heddlu yn gallu elwa ar, a datblygu o, brofiad eraill
- Grŵp ystadau Cymru gyfan. Mae trafodaethau ar y gweill rhwng holl heddluoedd Cymru i sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu harchwilio ac yn cael eu gweithredu mewn sefyllfaoedd lle byddai rhannu ystadau (a materion cysylltiedig) yn arwain at fanteision
- Mae gan Heddlu Gogledd Cymru Ganolfan Comisiynu / Datgomisiynu o safon. Fe'i defnyddiwyd gan heddluoedd eraill Cymru ac mae trafodaeth ar y gweill i bennu'r ffordd fwyaf priodol o ddatblygu hyn

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru bellach yn rhannu ystafell reoli, a elwir yn Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd. Mae pob galwad i'r heddlu neu'r gwasanaeth tân yn cyrraedd y ganolfan hon, gyda staff y ddau sefydliad yn ateb ac yn delio â'r alwad. Mae'r lleoliad yn rhoi cyfle i reolwyr o'r ddau sefydliad weithio ar y cyd, gan sicrhau dull wedi'i gydlynu o ddatrys llawer o'r digwyddiadau y mae gofyn i'r ddau sefydliad eu mynychu. O safbwynt gweithredol, mae manteision yn dechrau dod i'r amlwg oherwydd bod prosesau cyfathrebu a gweithredu ar y cyd yn datblygu er mwyn manteisio ar y trefniadau gweithio.

Mae'r ddau sefydliad hefyd wedi edrych ar y posibilrwydd o ddarparu gwasanaeth ar y cyd ar gyfer negeseuon testun SMS a recordio llais i bobl fyddar a phobl trwm eu clyw. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r ddau sefydliad gyfrannu mewn modd effeithiol at y broses o adnabod a datrys problemau posibl, a chanfod un datrysiad sy'n ateb anghenion y ddau sefydliad. Bydd hyn yn lleihau'r costau i'r ddau sefydliad.

Safonau Cydraddoldeb

Mae'r Asiantaeth Genedlaethol er Gwella Plismona yn datblygu Safonau Cydraddoldeb i wasanaeth yr Heddlu sy'n fater allweddol ym Mhapur Gwyrdd yr Heddlu. Nod y safonau yw cynorthwyo'r gwasanaeth i barhau i wella perfformiad a chynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth fel gweithgareddau prif-lif ym mhob maes busnes.

Bydd Gwasanaeth yr Heddlu yn profi'r safonau o fis Ebrill 2009 er mwyn integreiddio gweithgareddau cydraddoldeb ac ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth a ddarperir. Gweithredir datblygiadau newydd erbyn diwedd Hydref 2009. Bydd Arolygwyr Heddluoedd ei Mawrhydi yn eu defnyddio mewn archwiliadau rheolaidd o fis Ebrill 2010. Bydd Awdurdodau Heddluoedd yn gweithio gyda phob heddlu er mwyn defnyddio'r safonau i osod targedau lleol.

Rhaglen Canolbwyntio ar y Dinesydd

Cyflwynodd Heddlu Gogledd Cymru Addewid Plismona newydd yn 2009 i bob cymuned yn ardal yr Heddlu. Bydd yr Addewid yn cryfhau atebolrwydd lleol yn erbyn safonau lleiaf datganedig gan roi mwy o gyfle i'r cyhoedd ddylanwadu ar y modd o blismona eu cymunedau, fydd yn cynorthwyo gyda chynyddu hyder y cyhoedd yn y gwaith mae'r heddlu'n ei wneud.

Mae'r addewid yn cynnwys safonau clir o safbwynt yr amser sy'n cael ei dreulio ar y rhawd yn rhoi sylw i flaenoriaethau cyhoeddus a gytunwyd yn lleol, dulliau syml o gysylltu â'r timau plismona cymdogaethau lleol, ynghyd ag amseroedd ymateb i alwadau.

I gyd-fynd â'r addewid, crëwyd cyfleuster mapio troseddau newydd i'r cyhoedd gyda'r bwriad o roi gwybodaeth am droseddau a phlismona lleol mewn modd ystyrlon, hawdd cael gafael arno a rheolaidd.

Mae mwy o fanylion am yr addewid plismona a mapio troseddau lleol ynghyd â gwybodaeth ddefnyddiol ar sut i gysylltu â'r tîm plismona cymdogaethau lleol yn ogystal â'r hyn maen nhw'n ei wneud i fynd i'r afael â blaenoriaethau a gytunwyd yn lleol ar gael yma.

Mae gwaith hefyd ar y gweill o safbwynt Dilysnodau Canolbwyntio ar y Dinesydd yr NPIA. Erfyn asesu yw'r Dilysnodau a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth Genedlaethol er Gwella Plismona (NPIA) i gefnogi'r heddlu gyda phenderfynu faint o gynnydd a wnaed o safbwynt canolbwyntio ar y dinesydd go iawn. Mae gwaith ar y gweill i asesu, dadansoddi a gwella gwasanaethau er mwyn cwrdd â safonau'r dilysnod, a chynllunio a chyflwyno gwasanaethau sy'n ennyn hyder y cyhoedd.

Mae mwy o wybodaeth ar y Rhaglen Plismona Cymdogaethau a Chanolbwyntio ar y Dinesydd ar Wefan yr NPIA.

Strategaeth Dysgu a Datblygu

Ein staff yw ein hadnodd pwysicaf. Heb sefydlu a chynnal gweithlu amrywiol, galluog ac iach, ni all yr heddlu gyflawni ei amcanion strategol.

Mae recriwtio, hyfforddi, datblygu a darparu amgylchedd iach i weithlu iach yn hanfodol bwysig i ddatblygiad a gallu proffesiynol unigolion ac i ragoriaeth weithredol yr heddlu.

Rydym yn benderfynol o sicrhau bod pob swyddog heddlu, aelod o staff yr heddlu a swyddog gwirfoddol yn cael eu recriwtio, hyfforddi a'u datblygu'n iawn nid yn unig i gwrdd â heriau plismona heddiw ond hefyd i fod yn barod ac yn gymwys i gwrdd â heriau plismona yfory. Mae felly'n bwysig fod pob aelod o staff yn cael cyfle i fod yn iach ac i weithio mewn amgylchedd iach.

Cynlluniwyd Strategaeth Dysgu a Datblygu 2008/11 a Strategaeth Adnoddau Dynol 2008/11 i gefnogi'r broses o gyflawni Cynllun Strategol Tair Blynedd Gogledd Cymru a gweledigaeth yr heddlu, sef Gogledd Cymru Ddiogelach.

Mae Strategaeth Adnoddau Dynol 2008/11 a Strategaeth Dysgu a Datblygu 2008/11 ar y cyd yn cynnwys yr amcanion ar gyfer ein Strategaeth Adnoddau Dynol dros y tair blynedd nesaf. Mae'r broses o roi'r strategaethau hyn ar waith, i ategu'r Cynllun Plismona, wedi'i chynnwys yn y Cynllun Cyflwyno Adnoddau Dynol a'r Cynllun Busnes Dysgu a Datblygu.

Bydd Strategaeth Dysgu a Datblygu 2009-12 a Strategaeth Adnoddau Dynol 2009-12 yn cael eu diweddaru cyn gynted ag y maent ar gael.

Cynllun Datblygiad Cynaliadwy

Fel rhan o'r broses o wella ein perfformiad amgylcheddol cyffredinol, mae Heddlu Gogledd Cymru wedi ymgymryd â Chynllun Gweithredu Datblygiad Cynaliadwy.

Y nod yw sicrhau bod gweithgareddau'r Heddlu heddiw yn cyfrannu at well Gogledd Cymru, sy'n ddiogelach a mwy gwyrdd yn y dyfodol trwy gyfrwng datblygiad cynaliadwy parhaus, a bod Heddlu Gogledd Cymru yn anelu i fod yn garbon niwtral erbyn 2012.

Cyflawnir hyn trwy integreiddio rheoli datblygiad cynaliadwy yn llwyr yn ein gweithrediadau, ein prosesau busnes a'n Strategaeth Gorfforaethol bresennol, trwy ddatblygu Cynllun Gweithredu Datblygiad Cynaliadwy ar gyfer yr Heddlu.

Rydym yn yr ail flynedd o gynllun 2008-2020, a'r prif weithgareddau dan y cynllun yw:

- Mesur, cofnodi ac adrodd yn ôl ynghylch defnydd yr Heddlu o ynni a thanwydd gyda golwg ar ostwng yr ynni a'r tanwydd a ddefnyddir ganddo
- Mesur, cofnodi ac adrodd yn ôl ynghylch allyriadau nwy tŷ gwydr yr heddlu gyda golwg ar ostwng ei allyriadau nwy tŷ gwydr (neu ei 'ôl troed carbon')
- Mesur, cofnodi ac adrodd yn ôl ynghylch defnydd yr Heddlu o ddŵr gyda golwg ar ostwng faint o ddŵr y mae'n ei ddefnyddio
- Mesur, cofnodi ac adrodd yn ôl ynghylch y gwastraff a grëir gan yr Heddlu gyda golwg ar ostwng y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi trwy ailgylchu mwy
- Cynyddu gwerth bioamrywiaeth stad yr heddlu
- Gostwng trosedd a lleddfu ofn trosedd

Ategir y camau gweithredu hyn gan Gynlluniau Gweithredu Rhanbarthol ac Adrannol. I weld y Cynllun Datblygiad Cynaliadwy 2008-2020 llawn, dilynwch y cyswllt.

Hefyd, lluniwyd Adroddiad Datblygiad Cynaliadwy 2008/09 blynyddol sy'n cynnwys manylion ynghylch yr hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn.

Y Cynllun Iaith Gymraeg

Yn unol â'n cyfrifoldebau tuag at ein cymunedau a'n dyletswyddau dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, byddwn yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gydradd. Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig yn egluro sut y byddwn yn gweithio tuag at sicrhau y gallwn gynnig dewis iaith wrth ddarparu ein gwasanaethau, ac yn ein prosesau mewnol yn ystod y cyfnod hwn. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid perthnasol i sicrhau fod gwir ddewis iaith yn cael ei gynnig i'r rhai sy'n dod i gyswllt â'r system cyfiawnder.

Ein nod yn y pen draw yw bod yn sefydliad dwyieithog. Bydd ein gwaith i gyflawni hyn yn cynnwys:

- Cwblhau amcanion a nodwyd yn ein Cynllun Iaith Gymraeg presennol
- Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg fel iaith fusnes yn y gweithle
- Gwella gallu dwyieithog yr heddlu. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi staff i ddatblygu a defnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg yn llawn, yn ogystal â sicrhau bod pawb sy'n ymuno â'r heddlu o'r newydd yn meddu ar wybodaeth sylfaenol o'r Gymraeg fel sgil sylfaenol cyn penodi
- Nodi anghenion iaith swyddi mewn gwahanol ardaloedd a meysydd yn yr heddlu
- Hwyluso a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ystod cyswllt â'r cyhoedd
- Creu cyswllt rhwng egwyddorion ansawdd gwasanaeth a darparu cynnig dewis iaith i ddefnyddwyr
- Darparu gwasanaeth gwybodaeth hollol ddwyieithog

Mae cyfres o ddangosyddion perfformiad, targedau a safonau gwasanaeth yn ategu ein hamcanion, sy'n ein caniatáu i fesur cynnydd mewn modd effeithiol. Dilynwch y cyswllt i'n safle Rhyddid Gwybodaeth i weld Cynllun Iaith Gymraeg yr heddlu.

Caffael

Yr Uned Gaffael sy'n gyfrifol am holl drefniadau caffael yr heddlu. Mae'n cynnig cyngor a chanllawiau ar arferion prynu gorau wrth sicrhau fod pob polisi masnachol a pholisïau'r Undeb Ewropeaidd sy'n berthnasol i ddiddordebau Caffael Cyhoeddus yr Heddlu yn cael eu dilyn yn gyson, a bod y canllawiau ariannol a ddefnyddir gan Awdurdod yr Heddlu yn cael eu cadw.

Yn ganolog i'r rôl hon:

- Rheoli gweithdrefnau tendro a dyfarnu contractau am nwyddau a gwasanaethau
- Darparu gwybodaeth i alluogi deiliaid cyllidebau i wneud penderfyniadau prynu effeithiol

- Cydlynu anfon pob hysbysiad o Newyddiadur Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU)

Mewn hinsawdd sy'n mynnu fod pob Heddlu yn rhoi sylw i welliannau parhaus ac i fodloni ein cymunedau, mae Heddlu Gogledd Cymru bob amser yn ceisio defnyddio ei adnoddau yn y modd mwyaf doeth ac effeithiol bosibl. Mae'r ffaith fod y Llywodraeth yn ceisio cael gwell effeithlonrwydd ar y cyd â chyfyngu gwariant cyhoeddus bob blwyddyn wedi achosi dimensiynau newydd o safbwynt rheoli adnoddau.

Dilynwch y cyswllt i weld Strategaeth Caffael Heddlu Gogledd Cymru.

Amrywiaeth

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi ymrwymo i gynnwys cydraddoldeb a thegwch ym mhob un o'n gweithgareddau. Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd yr Asiantaeth Genedlaethol er Gwella Plismona (NPIA) yn cyhoeddi Safonau Cydraddoldeb i'r Heddlu, sy'n waith sylweddol. Bydd hyn yn asesu cynnydd cydraddoldeb yn barhaus ar draws rheolaeth sefydliadol a gweithgareddau gweithredol. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi gofyn am gyfle i weithredu fel safle peilot ar gyfer datblygu'r safonau.

Mae'r Uned Amrywiaeth â'r Adran Gyllid wedi cynnwys amrywiaeth yng nghylch cynllunio cyllideb flynyddol yr heddlu. Mae'n rhaid i adrannau roi tystiolaeth o sut yr hyrwyddwyd yr amrywiaeth yn y flwyddyn ddiwethaf a sut gwneir hyn i'r dyfodol. Mae'r broses yn cyd-fynd â chynlluniau cydraddoldeb yr heddlu trwy ddefnyddio tystiolaeth i ddangos cynnydd. Defnyddir yr wybodaeth i hysbysu'r cyhoedd ynghylch cynnydd yr heddlu.

Mae'r ffaith fod yr heddlu wedi ei gynnwys ar Fynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall yn galluogi'r heddlu i fesur ei gynnydd o safbwynt cefnogi aelodau o staff ac aelodau o'r gymuned sy'n Lesbiaid, Hoyw neu Ddeurywiol. Rhoddwyd yr heddlu yn safle 50 (allan o 317) a bydd adborth gan Stonewall yn arwain ein gweithrediadau i'r dyfodol.

Byddwn yn parhau i gynnig dulliau ychwanegol i bobl fyddar neu bobl trwm eu clyw gysylltu â'r heddlu. Gall pobl fyddar a phobl trwm eu clyw yn ogystal â phobl gyda nam ar eu lleferydd yn awr anfon negeseuon testun SMS at yr heddlu. Bydd yr heddlu yn gwella dealltwriaeth o faterion anabledd trwy gyfrwng dyddiau ymwybyddiaeth a thrwy sefydlu grŵp cefnogi anabledd. Bydd proses ymgynghori gydag aelodau o staff a grwpiau cymunedol yn parhau i ysgogi newidiadau i ystâd yr Heddlu.

Bydd y broses o gynyddu hyder cymunedau lleiafrifol i riportio digwyddiadau i'r heddlu ynghyd â chydlyniad cymunedol yn parhau i chwarae rhan bwysig yng ngwaith yr Uned Amrywiaeth a'r Heddlu yn 2009. Mae lefelau Troseddau Casineb perthnasol i Anabledd, Trawsrywiol a Homoffobig yn isel, a bydd gwaith penodol ar gyfer rhoi sylw i'r materion hyn yn parhau i ddatblygu yn 2009/2010.

Bydd gwaith yn parhau gyda Phencampwyr Cydraddoldeb, cymdeithasau staff ac aelodau o'r gymuned trwy gyfrwng Grŵp Ymgynghori Annibynnol, ynghyd â phum grŵp ymgysylltu allanol. Bydd y cwbl o'r rhain yn cynorthwyo'r heddlu i gyflawni canlyniadau cydradd a theg ym mhob agwedd o'i waith.

Ar ôl ymgynghori'n llawn, bydd yr heddlu'n datblygu un Cynllun Cydraddoldeb a gyhoeddir yn unol â'r Mesur Cydraddoldeb newydd.

Cyllid

Strategaeth Effeithlonrwydd a Chynhyrchiant yr Heddlu 2008/11

Mae Strategaeth Effeithlonrwydd a Chynhyrchiant 2008-2011 yn cynnwys fframwaith ar gyfer gwella a gytunwyd gan y Swyddfa Gartref, Cymdeithas Awdurdodau'r Heddluoedd a Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu. Mae'r strategaeth yn nodi cyfleoedd i Awdurdodau a Heddluoedd gynorthwyo gyda darparu enillion effeithlonrwydd a chynhyrchiant cynaliadwy.

Ers cyhoeddi'r Strategaeth, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref y papur gwyrdd "*From the Neighbourhood to the National; Policing Our Communities Together*" ym mis Gorffennaf 2008. Mae'r papur yn rhoi mwy o wybodaeth am gyfrifoldebau ac atebolrwydd Awdurdodau a Heddluoedd yn lleol i osod targedau ar gyfer effeithlonrwydd a chynhyrchiant sy'n cynnig her.

Felly, mae'r Awdurdod wedi adolygu a chytuno y bydd yn cyflawni arbedion wedi'u cynllunio o £13.153 miliwn rhwng 2008-2011 sy'n 9.3% o'r llinell sylfaen a gytunwyd, sef gwariant refeniw crynswth 2007-2008. Mae'r arbedion hyn yn cynnwys arbedion sy'n rhyddhau arian ynghyd ag arbedion sy'n cynyddu cynhyrchiant, sy'n golygu fod yma arbedion ariannol ac arbedion heb fod yn ariannol.

Mae elfennau o fewn y strategaeth fydd yn galluogi cyflawni enillion cynaliadwy yn cynnwys:

a) Rhaglen Moderneiddio Gweithlu Cenedlaethol
Mae un deg un heddlu'n gwneud hyn ar hyn o bryd fel safleoedd arddangos, er mwyn ceisio cryfhau perfformiad, cynhyrchiant, amlygrwydd ac effaith. Elfen allweddol o hyn yw cydweddu tasgau gyda sgiliau.

b) Ymgyrch *QUEST*
Mae'r Ymgyrch hon yn canolbwyntio ar ail-lunio prosesau a gwaith gwella, sy'n cael ei wneud gan bedwar heddlu ar hyn o bryd i gryfhau perfformiad a bodlonrwydd y cyhoedd.

c) Amser Cynhyrchiol
Mae'r gwaith hwn yn edrych ar well defnydd o swyddogion a staff trwy gydweddu cyflenwad / galw yn well, mynd i'r afael â gwario ar oramser, a lleihau absenoldebau salwch.

d) Rheolaeth a defnydd o Wybodaeth Gweithredol
Mae hyn yn canolbwyntio ar brif systemau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu'r Heddlu, a sicrhau bod buddion yn cael eu gwireddu. Rhan bwysig o hyn yw'r agenda data symudol.

e) Gwasanaethau Corfforaethol
Mae'r elfen hon yn canolbwyntio ar gaffael ar y cyd i gael enillion effeithlonrwydd, ynghyd ag ailwampio'r pencadlys corfforaethol ac adolygu gwasanaethau ar draws yr heddlu. Mae gwelliannau gweithrediadol hefyd yn cael sylw trwy rannu gwasanaethau a chydweithredu ar wasanaethau Ariannol ac Adnoddau Dynol.

f) Gwasanaethau Amddiffynnol
Mae un deg tri safle arddangos ar hyn o bryd yn yr heddluoedd sy'n cydweithredu i gyflwyno gwasanaethau amddiffynnol.

Sut rydym yn cyflawni'r targed?

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi pennu blaenoriaethau a thargedau ar gyfer y tair blynedd nesaf ac mae cynlluniau a phrosesau mewn lle i'n galluogi i gyflawni'r targedau effeithlonrwydd a chynhyrchiant ar gyfer 2010-2011. Hyd yma, mae'r Heddlu wedi llwyddo i gyflawni'r targedau a bennwyd gan y Swyddfa Gartref a, thrwy barhau i wneud cynnydd, bydd yn ceisio adeiladu ar y llwyddiant hwn a gyrru gwelliannau yn eu blaen wrth geisio effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Rydym yn cydnabod bod llawer o feysydd yn gorgyffwrdd â meysydd yn y strategaeth, felly lluniwyd y cynllun fel a ganlyn:

(i) Gwella Prosesau
Rydym yn cydnabod, er mwyn rheoli ein sefydliad yn effeithiol, y bydd raid i ni reoli a sicrhau ein bod yn cael y manteision mwyaf o'n prosesau craidd. Felly, byddwn yn adolygu ein prosesau mewnol ac yn ceisio defnyddio cyn lleied o adnoddau â phosib a nodi a chael gwared ar unrhyw ddyblygu. Y prif arbedion yn y maes hwn yw'r arbedion dan Ymgyrch *QUEST* fydd, o'u gweithredu, yn cynyddu cynhyrchiant ac ansawdd gwasanaeth mewn modd cynaliadwy ar draws yr Heddlu. Mae manylion Ymgyrch *QUEST* Heddlu Gogledd Cymru i'w gweld yn y cynllun strategol. Byddwn hefyd yn ceisio gwneud mwy o'n prosesau yn electronig er mwyn lleihau biwrocratiaeth a phapur, a rhyddhau adnoddau ar gyfer dyletswyddau rheng flaen.

(ii) Gostwng Trosedd / Ymchwilio i Drosedd
Byddwn yn parhau i wella safonau ymchwilio trwy ddefnyddio adnoddau hyd yr eithaf i gynyddu cyfraddau datgelu. Byddwn hefyd yn gwella diogelwch defnyddwyr ffyrdd Gogledd Cymru er mwyn lleihau'r nifer o wrthdrawiadau.

(iii) Gwell cynhyrchiant
I wella effeithlonrwydd ein hadnoddau byddwn yn parhau i sicrhau ein bod yn colli llai o amser i salwch ac yn cynyddu cynhyrchiant ar draws yr heddlu trwy adolygu swyddogaethau er mwyn rhyddhau adnoddau ble bosib.

(iv) Gwasanaethau Corfforaethol
Trwy gydweithredu'n rhanbarthol a chenedlaethol ar gaffael, byddwn yn parhau i ddarparu gwell effeithlonrwydd o safbwynt costau gwasanaethau. Bydd gwella trefniadau caffael o fewn y prosesau gwasanaethau corfforaethol yn gostwng y pwysau ar bobl ar draws y sefydliad.

(v) Effeithlonrwydd
Mae'r amgylchedd economaidd sy'n bodoli ar hyn o bryd, ynghyd â setliad ariannol llym, yn golygu mwy o bwysau ar adnoddau ariannol. Byddwn felly yn ceisio defnyddio ein hasedau hyd yr eithaf i gynnal y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu a lleihau'r effaith ar ein gwasanaethau.

(vi) Moderneiddio'r Gweithlu
Mae Moderneiddio'r Gweithlu yn ymwneud â sicrhau fod gennym y gymysgedd orau o swyddogion a staff ar y llinell flaen er mwyn gwneud y mwyaf o allu'r heddlu i wella gwasanaethau i gwsmeriaid. Byddwn yn parhau i gynnal adolygiadau er mwyn sicrhau bod gan ein pobl y gallu i ddefnyddio eu sgiliau hyd yr eithaf, a bod ganddynt yr hyfforddiant cywir yn y swyddogaethau cywir ar draws yr Heddlu.

(vii) Rheoli Gwybodaeth Weithredol
Mae'r heddlu mewn sefyllfa dda i fanteisio ar enillion trwy barhau i gyflwyno a defnyddio data symudol. Byddwn yn ceisio gwneud y mwyaf o amser gweithredol cynhyrchiol a chynyddu gallu ein swyddogion i fod allan o'r gorsafoedd.

Yn unol â'r dulliau a welir uchod, mae'r tabl isod yn disgrifio effeithlonrwydd ac arbedion cynhyrchiant a ragwelir erbyn 2010/2011.

Cynllun Effeithlonrwydd a Chynhyrchiant Heddlu Gogledd Cymru 2008-11

Maes Strategaeth Effeithlonrwydd a Chynhyrchiant	Blaenoriaethau / Targedau Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru	Ardal	£'000
Gwelliannau mewn Prosesau Busnes	▪ Rheoli ein gweithgareddau sefydliadol yn effeithiol ▪ Partneriaeth – gweithio mewn partneriaeth i greu cymunedau diogel ▪ Symud o blismona cymdogaethau i reoli cymdogaethau ▪ Datblygu recriwtio a hyfforddi	Mentrau Cyfiawnder Troseddol Lleihau goramser E-ddysgu Adolygu prosesau	8.803
Lleihau Trosedd/ PROTOCOL	▪ Partneriaeth – gweithio mewn partneriaeth i greu cymunedau diogel ▪ Gwella diogelwch defnyddwyr ffyrdd Gogledd Cymru ▪ Gwella safonau ymchwilio	Lleihau Gwrthdrawiadau Traffig y Ffyrdd Datgelu mwy o Droseddau	2.112
Gwell cynhyrchiant	▪ Effeithlonrwydd a Datblygiad - Defnyddio ein hasedau hyd yr eithaf trwy gyfrwng effeithlonrwydd a datblygiad ▪ Dangos gwell effeithlonrwydd trwy wneud y defnydd gorau bosib o asedau ▪ Cynnal diwylliant gwaith cefnogol	Gostwng colli gwaith i salwch Rheoli cofnodion	0.122
Gwasanaethau Corfforaethol	▪ Cryfhau perfformiad o safbwynt defnydd effeithiol o adnoddau	Caffael Prosesau Prynu a Gwerthu	0.828
Effeithlonrwydd	▪ Effeithlonrwydd a Datblygiad - Defnyddio ein hasedau hyd yr eithaf trwy gyfrwng effeithlonrwydd a datblygiad ▪ Dangos gwell effeithlonrwydd trwy wneud y defnydd gorau bosib o asedau	Gostwng Cyllidebau Datganoledig Gostyngiadau yn y gyllideb	5.912
Moderneiddio'r Gweithlu	▪ Cryfhau perfformiad o safbwynt defnydd effeithiol o adnoddau ▪ Partneriaeth – gweithio mewn partneriaeth i greu cymunedau diogel	Cynllunio'r Gweithlu	0.250
Rheoli Gwybodaeth Weithredol	▪ Gwasanaeth a Bodlonrwydd - Darparu gwasanaeth fydd yn rhoi tawelwch meddwl a bodlonrwydd ▪ Rheoli gwybodaeth mewn modd effeithiol ▪ Bod yn fwy amlwg trwy ddefnyddio technoleg fodern	Data Symudol Mwy o amser allan o'r gorsafoedd Mwy o amser cynhyrchiol	0.250
		CYFANSWM:	**18.277**

Sut yr awn ati i adrodd yn ôl ynghylch ein llwyddiannau

Mae'r Strategaeth yn gofyn i Awdurdodau Heddluoedd fod yn fodlon bod y cynllun yn ei le ac y bydd cynnydd ar ôl hynny yn cwrdd â'r targed effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Bydd yr Awdurdod yn parhau i dderbyn manylion cynnydd yn erbyn y cynllun bob chwarter, a gellir asesu cyflawniad cyffredinol yn erbyn hyn.

Hefyd bydd yr heddlu'n rhoi manylion i'r Swyddfa Gartref ynghylch effeithlonrwydd a chynhyrchiant a gyflawnwyd ac enillion a ragwelir bob chwe mis, yn unol â gofynion y Strategaeth.

Strategaeth Ariannol a Chynllun Ariannol Tymor Canol

Mae'r Strategaeth Ariannol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn rhan allweddol o broses gynllunio corfforaethol integredig yr Awdurdod, sy'n cysylltu cynllunio gweithredol gyda chynllunio ariannol ac adnoddau er mwyn sicrhau fod yr holl adnoddau'n anelu at flaenoriaethau polisi. Mae'r strategaeth yn disgrifio cyfeiriad ariannol yr Awdurdod, a'r Cynllun Tymor Canol yn amlinellu'r pwysau a'r anghenion ariannol dros gyfnod o 4 blynedd. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth ar Ystadau, y Fflyd, Technoleg Gwybodaeth, Adnoddau Dynol, Strategaethau Caffael a Datblygiad Cynaliadwy ar gyfer y cyfnod.

I weld yr adroddiad llawn, dilynwch y cyswllt Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Prisio ein blaenoriaethau

Yn unol ag arfer da yr ydym wedi defnyddio dadansoddiad gweithgaredd a phroses o adnabod faint o adnoddau sy'n gysylltiedig â blaenoriaeth neilltuol, i egluro mor dda â phosibl y costau arfaethedig sy'n gysylltiedig â diwallu ein blaenoriaethau:

1. Rhoi gwasanaeth o ansawdd uwch i bobl yr ydym yn dod i gysylltiad â nhw

Mae gan bob unigolyn sy'n gweithio i Heddlu Gogledd Cymru gyfrifoldeb dros roi gwasanaeth o ansawdd uwch i bobl y maent yn dod i gysylltiad â nhw.

Mae Ymgyrch Quest, menter a noddir gan Y Swyddfa Gartref sy'n canolbwyntio ar wella perfformiad gweithredol, wedi tanlinellu arbedion effeithiolrwydd net posibl, ac fe ail-fuddsoddir y mwyafrif o'r arbedion hyn yn un o dair blaenoriaeth plismona, sef:

- **Bodlonrwydd Cwsmeriaid**
- Patrolio a Phlismona Rhagweithiol
- Datgeliadau

2. Gwella diogelwch plant, pobl ifanc a phobl ddiamddiffyn eraill

Mae gan bob unigolyn sy'n gweithio i Heddlu Gogledd Cymru gyfrifoldeb dros wella diogelwch plant, pobl ifanc a phobl ddiamddiffyn eraill.

Ar hyn o bryd mae yna gyfanswm o 117.39 o Swyddogion yr Heddlu sy'n Gyfartal ag Amser Llawn (CALl) a 55.22 Staff yr Heddlu CALL mewn swyddi sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros wella diogelwch plant, pobl ifanc a phobl ddiamddiffyn eraill.

Fel rhan o gynllun Gwasanaethau Amddiffynnol tair blynedd yr heddlu, erbyn 2009-10 bydd yr heddlu wedi buddsoddi £3.275 miliwn yn ychwanegol mewn swyddi sy'n canolbwyntio ar:

- **Gwella diogelwch plant, pobl ifanc a phobl ddiamddiffyn eraill**
- Gwella atal, ymchwilio i, a datgelu troseddau difrifol a threisgar

gan gynnwys swyddi ym meysydd Diogelu'r Cyhoedd, Cudd-wybodaeth, Timau Digwyddiadau Mawr yr Heddlu, Gweithrediadau Lefel 2, Cefnogaeth Wyddonol ayyb.

3. Gwella atal, ymchwilio i, a datgelu troseddau difrifol a threisgar

Yn draddodiadol defnyddiodd Heddlu Gogledd Cymru rhwng 43-46% o'i adnoddau ar leihau ac ymchwilio i droseddau (yn seiliedig ar ganlyniadau Prisiadau ar Sail Gweithgareddau i'r Swyddfa Gartref).

Fel rhan o gynllun Gwasanaethau Amddiffynnol tair blynedd yr heddlu, erbyn 2009-10 bydd yr heddlu wedi buddsoddi £3.275 miliwn yn ychwanegol mewn swyddi sy'n canolbwyntio ar:

- Gwella diogelwch plant, pobl ifanc a phobl ddiamddiffyn eraill
- **Gwella atal, ymchwilio i, a datgelu troseddau difrifol a threisgar**

gan gynnwys swyddi ym meysydd Diogelu'r Cyhoedd, Cudd-wybodaeth, Timau Digwyddiadau Mawr yr Heddlu, Gweithrediadau Lefel 2, Cefnogaeth Wyddonol ayyb.

Mae Ymgyrch Quest, menter a noddir gan Y Swyddfa Gartref sy'n canolbwyntio ar wella perfformiad gweithredol, wedi tanlinellu arbedion effeithiolrwydd net posibl, ac fe'u hail-fuddsoddir gan fwyaf mewn tair blaenoriaeth plismona, sef:

- **Datgeliadau**
- Bodlonrwydd Cwsmeriaid
- Patrolio a Phlismona Rhagweithiol

4. Darparu gwasanaeth plismona cymunedol sy'n weledol iawn

Mae gan Heddlu Gogledd Cymru dîm Plismona Cymdogaeth ymroddedig o:

Rheolwyr Rhawd Gymunedol (RhRhG) – Cwnstabliaid a Rhingylliaid - 154
Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu (SCCH) - 158

Sy'n cael eu rhannu i:

Rhanbarth	RhRhG	SCCH
Y Rhanbarth Canolog	43	41
Y Rhanbarth Dwyreiniol	67	66
Y Rhanbarth Gorllewinol	44	51
Cyfanswm	**154**	**158**

5. Lleihau lefel ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol

Yn draddodiadol defnyddiodd Heddlu Gogledd Cymru rhwng 2.5-2.8% o'i adnoddau ar ymdrin ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (yn seiliedig ar ganlyniadau Prisiadau ar Sail Gweithgareddau i'r Swyddfa Gartref.)

Datganiadau Cyfrifon

I weld y Datganiad o Gyfrifon sy'n rhoi darlun clir o drafodion ariannol yr Awdurdod ac sy'n cynnwys:

- Cyfrifon Incwm a Gwariant
- Datganiad o symudiadau yn y Balansau Cronfeydd Cyffredinol
- Datganiad o Gyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig
- Mantolen
- Datganiad Llif Arian
- Nodiadau ar y Cyfrifon
- Cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Adroddiad yr Archwiliwr

Dilynwch y cyswllt at wefan Awdurdod Heddlu